Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru

27 Medi 2016

Annwyl Alun,

Diolch i chi am roi o'ch amser i ddod i'n cyfarfod ar 21 Medi i drafod eich cylch gwaith a chyfeiriad y Tasglu Gweinidogol ar y Cymoedd. Cydnabu'r Pwyllgor y ffaith na chafodd y Tasglu gyfle i gwrdd cyn i chi roi tystiolaeth a'r ffaith y byddai'n cyfarfod yn ddiweddarach yn yr wythnos.

Gan fod y grŵp wedi cyfarfod erbyn hyn, a allwch roi'r wybodaeth a ganlyn i ni fel y cytunwyd:

- papurau a chofnodion cyfarfodydd cychwynnol y tasglu
- manylion y cylch gorchwyl a gytunwyd
- gwybodaeth am y cyfeiriad a'r fframwaith strategol

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, hoffai'r Pwyllgor hefyd gael:

- manylion ynghylch sut mae'r Tasglu'n bwriadu gweithio ac ymgysylltu â phobl a chymunedau ledled y Cymoedd
- trefniadau monitro a gwerthuso ar gyfer gwaith y Tasglu
- cerrig milltir, targedau a dangosyddion llwyddiant y bydd y Tasglu yn eu defnyddio
- pryd, sut ac i bwy y bydd y Tasglu yn adrodd
- gwybodaeth am sut y bydd y Tasglu yn cydlynu ac yn gweithio gyda chynlluniau presennol yn yr ardal i sicrhau'r effaith fwyaf; mae'r rhain yn cynnwys: Dinas-Ranbarth, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Dechrau'n Deg, a Chymunedau yn Gyntaf
- pa asesiad y bydd y Tasglu yn ei gynnal ar effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Cofion cynnes,



John Griffiths AC
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565